# SL(5)496 – Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (Datgymhwyso Gohirio Isddeddfwriaeth) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Phwrpas

Mae Rhan 4 o'r cytundeb ymadael yn darparu ar gyfer y cyfnod gweithredu (neu gyfnod pontio).

Mae paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (Deddf 20202) yn rhoi effaith gyfreithiol i'r cyfnod gweithredu drwy wneud diwygiadau annhestunol i ddyddiadau dod I rym yr is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym yn union cyn y diwrnod ymadael, ar y diwrnod ymadael neu ar unrhyw adeg ar ôl y diwrnod ymadael. Daw'r isddeddfwriaeth hon yn hytrach i rym yn union cyn diwedd y cyfnod gweithredu (diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu), ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu neu (yn ôl y digwydd) ar yr adeg o dan sylw ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliad 2 yn darparu na fydd paragraff 1(1) o Atodlen 5 yn gymwys i Reoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 fel y byddant yn parhau i ddod i rym ar y diwrnod ymadael.

## Gweithdrefn

Dim.

## Craffu o dan Rheol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn (gweler isod).

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

**Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.**

1. Nodwn fod gohirio cychwyn is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael yr UE yn gwneud y llyfr statud yn fwy cymhleth fyth. Ymhellach, drwy gyflawni'r gohiriad drwy ddiwygiad annhestunol (h.y. nid yw testun y darpariaethau cychwyn eu hun yn cael eu diwygio, yn hytrach, cymhwysir glos dehongli iddynt, yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020), nid yw hyn yn helpu hygyrchedd i'r gyfraith.

Derbyniwn, yn yr amgylchiadau, efallai na fyddai'n gymesur i newid testun y darpariaethau cychwyn ym mhob darn o is-ddeddfwriaeth, ond credwn y dylai darllenwyr y ddeddfwriaeth o leiaf gael eu cyfeirio at y glos dehongli a gymhwysir gan baragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Chwefror 2020**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
National Assembly for Wales
**Legislation, Justice and Constitution Committee**